Mae'r daith hon yn mynd â ni ar hyd ben rallt gyda golygfeydd gwych o fywyd môr a'r glannau, drwy diroedd amaethyddol pen draw'r penrhyn ac ar hyd ambell ffordd wledig. Cawn flas o fywyd porthladdoedd bach y glannau hyn a chyfle i weld eglwys hynafol arbennig ar Lwybr y Pererinion ac sy'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

Manylion y daith

Amcan o hyd: 5 km/3.2 milltir.

Amcan o'r amser: 2.5 awr.

Map AO: graddfa 1:25 000 Explorer 253.

Man cychwyn/gorffen: Troi o'r ffordd B4417 ger Tudweiliog am Borth Ysgaden, SH219 374.

Mynediad a chyfleusterau

Parcio: ger Porth Ysgaden, lle i 10-15 car, LL53 8NB.

Bws: Gweler gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn: 01758 721 777; oddrwsiddrws@yahoo.co.uk

Toiledau: Pen Morfa Nefyn y pentref; SH238 368.

Lluniaeth: Gwesty'r Lion ('Ring') Tudweiliog.

Nodwch

- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad: ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch*** naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf

Eryri
Mynyddoedd a Môr

Cronfa Gymunedol Arfordir a Threftadaeth Coastal Communities Fund

Cylchdaith

8 Tudweiliog

Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

Ar ôl parcio ger Porth Ysgaden, cewch afael ar Lwybr yr Arfordir sy'n mynd tua'r dwyrain. Mae'r daith yn dilyn llwybr yr arfordir gwyllt a garw uwch porthau pwysig yn yr hen ddyddiau: Porth Ysgaden, Porth Lydan, Porth Ysglaig a Phorth Tywyn. Croeswch y ffordd wrth ymyl y maes carafanau, i'r chwith am ychydig a chanfod llwybr heibio talcen dwyreiniol y fferm. Ewch ymlaen am Dudweiliog drwy gaeau amaethyddol. Trowch i'r dde pan gyrhaeddwch y B4417 yn y pentref gan ddilyn llwybr i'r dde eto o gefn Tudweiliog drwy'r caeau i ffordd y glannau wrth fferm Porth Ysgaden. I'r chwith, yna i'r dde yn y gyffordd a dilyn y ffordd drol yn ôl i harbwr Porth Ysgaden.

Mannau o ddiddordeb

Un o borthau traddodiadol gogledd Llŷn yw **Porth Ysgaden** ① ac mae'n dal i gael ei ddefnyddio gan gychwyr lleol. Gair arall am 'bennog' yw 'ysgaden' ('sgadan' yn y dafodiaith leol) ac roedd pysgotwyr ymysg y rhai a ddefnyddiai'r porthladd bach prysur a chysgodol hwn. Mae hen ierdydd glo (iard y cychod heddiw) i'w gweld yma ac mae'r llwybr yn mynd heibio'r hen odyn galch a ddefnyddid i losgi cerrig calch yn wrtaith i'r tir. Bwthyn hen saer cychod yw'r adfail ar drwyn y borth – arferai'r wraig hongian cannwyll yn y ffenest ar noson stormus i rybuddio llongau o beryglon y creigiau.

Mae olion melin o'r hen ddyddiau ym **Mhorth Ysglaig** ② ac yma hefyd mae Ffynnon Cwyfan, nawddsant plwyf Tudweiliog. Roedd coel fod hon yn gwella anhwylderau ar y croen – defaid ac ati – ac arferid offrymu pinnau ynddi.

Rhos y Llan yw'r hen enw ar ardal **Porth Tywyn** ③. Credir bod yr hen bentref a'r eglwys wreiddiol wedi'i lleoli gyferbyn â'r ffermdy lle mae siop nwyddau a chrefftau Cwt Tatws heddiw (www.cwt-tatws.co.uk). Mae Porth Tywyn yn dywodlyd braf ac mae lle parcio wrth y fferm i'r rhai sy'n dymuno treulio amser ar lan y môr yma.

Un o ddilynwyr Beuno oedd Cwyfan, nawddsant **Eglwys Tudweiliog** ④. Roedd yn byw yn y seithfed ganrif ond mae enw'r pentref yn awgrymu mai Tudwal oedd y sant gwreiddiol yma. Eglwys bwysig ar Lwybr y Pererinion. Mae'r ffenestri lliw ynddi yn coffáu teulu'r Wynne-Finch sy'n dal i fyw ym mhlas Cefn Amwlch i'r de o'r pentref.

Saif olion y gladdfa Neolithig **Cromlech Coeten Arthur** ⑤, **Cefn Amwlch** (SH229 345) wrth Coed Gromlech ar ffordd (sydd heb ei rhifo, ond yn cael ei harwyddo) Sarn Mellteyrn (troi i'r chwith, rhyw filltir o Dudweiliog i gyfeiriad Aberdaron). Mae'n un o amryw o gerrig hynafol yng Nghymru sy'n cael eu cysylltu â champau cryfder y Brenin Arthur.

www.ymweldageryri.info